

# Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

## Cofnodion Cyfarfod 25/03/2019 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

Greta Hughes (Cadeirydd)  
Iwan Hughes  
Rhodri Ellis Owen

Evan Glyn Thomas  
Thomas Victor Jones  
Clair Russel Griffiths

John Brinley Jones  
William Penri Jones  
Rhian Hughes-Jones  
(Clerc)

William Roger Jones  
Barbara Warren

### 1. Ymddiheuriadau

Dim

### 2. Datgan Buddiant Ariannol neu Personol

Greta Hughes – Cais Cynllunio C19/0156/38/LL cais cynllunio perthynas agos.

Iwan Hughes – Cais Cynllunio C19/0156/38/LL cais cynllunio perthynas agos.

Rhodri Ellis Owen – Mynwent newydd – Perthynas agos i gyn berchennog y tir.

### 3. Cofnodion 03/03/2019

Derbyn Cofnodion 03/03/2019 yn gywir gyda man newid ac wedi eu arwyddo. Victor Jones eisiau diddymu brawddeg.

### 4. Unrhyw Fater Brys

Datblygiad tu ol i Boathouse uwchben Fox Hall gyda gwaith yn cael ei wneud gyda JCB. Mae'r Clerc am gysylltu gyda Cyngor Gwynedd I ymchwilio yn dilyn derbyn lluniau gan aelodau.

### 5. Etholiadau

Mae'r Clerc yn cadarnhau ei bod wedi cysylltu gydag adran etholiadau Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r sedd wag sydd ar y Cyngor Cymuned.

Nodwyd y Clerc bod yr adran etholiadau wedi darparu rhybudd etholiad yw gosod yn y gymuned, mae'r pwyllgor yn cytuno yw gosod o amgylch y pentref. Nid oes mynediad i'r hysbysfyrddau ar hyn o bryd ond mae'r aelodau am chwilio am oriadau.

Bydd y Clerc yn trefnu rhybuddion o sedd wag ac yn eu darparu cyn y cyfarfod nesaf os na fydd cais am etholiad wedi ei dderbyn.

Mae Greta Hughes yn awyddus i'r Cyngor Cymuned lythyru Angela Russell yn diolch iddi am yr holl flynyddoedd o waith caled ac ymroddiad i'r Cyngor Cymuned ac yn nodi ei fod yn golled fawr.

### 6. Cae Chwarae

Mae'r Clerc wedi gwneud ymholiadau i bosibiliadau i warchod dyfodol y cae chwarae; nid oes arian ar gael gan y Cyngor Cymuned I wneud y gwelliannau angenrheidiol i'r cae chwarae. Nodwyd y bydd yn syniad i greu pwyllgor i'r Cae Chwarae.

Bydd gan Bwyllgor o'r fath mwy o cyfleoedd i dderbyn arian megis grant a rhoddion. Buasai'n syniad condemnio'r cae chwarae er mwyn sicrhau ei ddyfodol. Mae'r pwyllgor yn awyddus i fynd ymlaen gydag hyn. Mae'r aelodau am holi trigolion yr ardal yn ogystal â chysylltu gyda'r ysgol a chylch meithrin. Bydd aelodau yn adrodd yn ôl i'r Cyngor Cymuned.

Mae Penri Jones yn cynnig (eilydd; Roger Jones) bod y Cyngor Cymuned yn gwneud gwelliannau i'r ffens ar hyd cefn y cae chwarae fel mater o frys. Mae'r cynnig yn llwyddiannus.

# Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

## Cofnodion Cyfarfod 25/03/2019 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

### 7. Y Fynwent

Mae'r Clerc wedi bod yn ymchwilio i gostau claddu yn fynwent Llanbedrog. Nodwyd bod yr amserlen ffioedd sydd gan y Cyngor Cymuned yn anghyflawn ac yn llawer is nac ardaloedd eraill. Cytunwyd i'r Clerc yrru amserlen ffioedd newydd a hen i'r Cyngor Cymuned er eu trafod yn y cyfarfod nesaf.

Mae'r fynwent yn prysur lenwi ac mae'n amserol i baratoi i symud i'r fynwent newydd.

Nodwyd nad yw'r pwyllgor yn hollol siŵr lle mae'r gweithredoedd. Bydd y Clerc yn cysylltu gyda Bryn Martin i sicrhau eu lleoliad.

### 8. Cofebion

Tir Cwmwd – Mae William Roger Jones wedi derbyn cwynion gan aelodau o'r cyhoedd bod cerrig yn cael eu gosod er cof ar y tir yma. Mae'r rhain yn uniaith Saesneg a ba hawl sydd gan aelod o'r cyhoedd i osod cerrig fel hyn. Nodwyd bod y meinciau hefyd gyda phlac uniaith Saesneg yn unig. Mae Greta Hughes yn nodi nad yw'r Cyngor Cymuned wedi gofyn i wyro'r hyn y mae aelodau o'r cyhoedd yn gosod ar eu plac. Nodir i'r dyfodol y buasai'n well i'r Cyngor Cymuned wyro'r holl blaciau sydd yn cael eu gosod.

Mae'r Clerc wedi llythyru Llanbedrog Headland Co. ond nid wedi derbyn ymateb eto. Bydd y Clerc yn dilyn hyn i fynnu wrth gysylltu gyda Chyngor Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru.

### 9. Yswyriant Cyngor Cymuned

Mae'r Cyngor Cymuned wedi derbyn prisiau yswyriant gan Came & Co £819.84 am flwyddyn 2019-2020. Mae Penri Jones yn cynnig (eilydd; Clair Russel) derbyn y pris yma. Mae'r cynnig yn llwyddiannus.

### 10. Rhoddion

Mae nifer o geisiadau am rhoddion wedi eu derbyn eleni:

1. **Llyfrau llafar Cymru**
2. **Plas Carmel, Anelog** – Adfer hen adeilad capel unigryw.
3. **Dawns i Bawb** – Mudiad i hybu dawns imewn gymunedau
4. **Theatr Bara Caws** – Cais am cofnogaeth ariannol
5. **Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019**
6. **Ymdderiedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru** – Rhoi seibiant i ofalwyr
7. **Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen**
8. **Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro 2019**
9. **Ambiwylans Awyr** – Cais am gyfraniad
10. **Chair of Bridgend Coalition of Disabled People and a Trustee with Disability Wales** - Bridgend Coalition of Disabled People, a Childhood Tumour Trust.

Mae'r Cyngor Cymuned yn awyddus i gefnogi mudiadau lleol ac yn cynnig yn llwyddiannus i roi'r rhoddion isod;

<b>Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019</b>	<b>£50.00</b>
<b>Plas Carmel, Anelog</b> – Adfer hen adeilad capel unigryw.	<b>£20.00</b>
<b>Ambiwylans Awyr</b>	<b>£50.00</b>
<b>Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro 2019</b>	<b>£25.00</b>

### Ceisiadau Cynllunio

**C19/ 0156/38/LL**

Gosod ffenestr do cefn ac addasiadau a newid defnydd cyn-feddygfa yn anecs

Glennydd, Llanbedrog, Pwllheli.

**Cefnogol**

# Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 25/03/2019 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

## Taliadau wedi eu cymeradwyo

**Cyflog y clerc** - Rhian Hughes-Jones

Mawrth 2019 £333.33

**£333.33**

**Came & Co** - Yswyriant

**£819.84**

## Taliadau wedi eu Derbynn

Ifan Hughes – Ymgymwr Angladdau

**£145.00**

G D Roberts - Ymgymwr Angladdau

**£200.00**

## Gohebiaeth

1. **Un Llais Cymru** - Cyfarfod Pwyllgor Ardal Arfon Dwyfor sy'n digwydd 12 Mawrth 2019
2. **Gwybodaeth am gynhyrchiad newydd Theatr Bara Caws** - 'Costa Byw' a fydd yn teithio cymunedau'r Gogledd yn ystod Mawrth/Ebrill 2019
3. **Cynulliad Cymru** - Diwedd BDO-Grant Thornton
4. **Heddlu Gogledd Cymru a Safonau Masnach Gwynedd a Môn** - gweithio i godi ymwybyddiaeth o dactegau sgarniau
5. **Cynghorydd Michael Parry aelod o GyngorTref Pwllheli** - Bwriad i dynnu'r uned cyfleusterau fasgwlaidd brys yn YG Bangor yn ôl.

## Cais am gyfraniad

1. **Llyfrau llafar Cymru**
2. **Plas Carmel, Anelog** – Adfer hen adeilad capel unigryw.
3. **Dawns i Bawb** – Mudiad i hybu dawns imewn gymunedau
4. **Theatr Bara Caws** – Cais am cofnogaeth ariannol
5. **Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019**
6. **Ymdderiedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru** – Rhoi seibiant i ofalwyr
7. **Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen**
8. **Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro 2019**
9. **Ambiwylans Awyr** – Cais am gyfraniad
10. **Chair of Bridgend Coalition of Disabled People and a Trustee with Disability Wales** - Bridgend Coalition of Disabled People, a Childhood Tumour Trust.

Clerc – Rhian Hughes-Jones • [cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com](mailto:cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com) •

07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA

Cadeirydd – Angela Russlle